Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ystadau cymru

Arwain cydweithredu – un ystad gyhoeddus Cymru
Leading collaboration – one public estate Wales

# Croeso i'ch Rhifyn Arbennig o Newyddlen Ystadau Cymru sy'n ymwneud â'n Cynhadledd a'n Gwobrau

RHIFYN DEG

10

## CYNNWYS


Cyflwyniad y Cadeirydd
**Tudalen 2**

Gwobrau Ystadau Cymru 2024
**Tudalen 3**

Cynhadledd Ystadau Cymru 2023
**Tudalen 4**

Gwobrau Ystadau Cymru 2023
**Tudalen 7**

Newyddion am Gyllid
**Tudalen 10**

Adroddiad Richard
**Tudalen 11**


## Dathlu cydweithio o fewn ein cymunedau – Enillydd cyffredinol gwobrau YC 2023 yw...




### Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg

Darllenwch ymlaen i ddarganfod sut mae'r prosiect cydweithredol hwn yn gwella mynediad at fwyd fforddiadwy ac yn dod â chymuned wledig at ei gilydd. Ewch i dudalen 7

## Cyhoeddiad!!!

Mae Gwobrau Ystadau Cymru 2024 bellach ar agor!

**Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 3**

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

**Rwyf yn arbennig o falch o'n deg rhifyn o gylchlythyr Ystadau Cymru, sy'n ddeunydd darllen hanfodol i bawb sy'n ymwneud ag ystad gyhoeddus Cymru.**



Beverly Owen

**Roedd Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru (YC) 2023 unwaith eto, yn llwyddiant mawr. Gan arddangos rhai prosiectau ysbrydoledig, thema'r gynhadledd oedd Un Ystad Gyhoeddus Cymru, yn dathlu'r hyn y gallwn ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.**

Roedd y digwyddiad yn gyfle yn ein calendrau prysur i ddathlu'r hyn rydym wedi ei gyflawni, rhannu arferion gorau ac archwilio ffyrdd gwahanol o oresgyn rhwystrau.

Hoffwn ddiolch i Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet am gyflwyno gwobrau YC, i dîm YC am reoli'r digwyddiad ac i Tom Bowring am ei waith gwych wrth gyflwyno'r seremoni.

Cawsom adborth gwych gan fynychwyr ac wrth i'r digwyddiad esblygu, rydym yn gwerthfawrogi eich syniadau ynghylch pa themâu yr hoffech eu trafod mewn cynadleddau yn y dyfodol.

Nod y rhifyn arbennig hwn yw cydnabod y prosiectau a'r cyflwynwyr yn y gynhadledd ac i'r rhai a enillodd wobrau neu a gyrhaeddodd y rhestr fer.

Mae llawer mwy i'w ddarllen yn y rhifyn hwn – gobeithio y byddwch yn ei fwynhau.

# GWOBRAU YSTADAU CYMRU 2024

# AR AGOR NAWR

**Rydym bellach wedi lansio gwobrau Ystadau Cymru 2024 a byddem wrth ein bodd yn gweld eich prosiectau cydweithredol o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Rydym yn croesawu pob math o brosiectau gan gydweithwyr ledled Cymru – waeth pa mor fawr neu fach.**

**Cyflwynwch eich cais erbyn 5pm ar 14 Hydref 2024. Edrychwch ar dudalen we Gwobrau Ystadau Cymru i gael gwybod mwy.**

**Gwobrau Ystadau Cymru 2024 | LLYW.CYMRU**

**Edrychwn ymlaen at weld eich enwebiadau!**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ystadau cymru

Enillydd Gwobr
Award Winner
2022

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make best use of the public estate

RHIFYN WYTH

Croeso i rifyn arbennig Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru lle rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o werth cymdeithasol

CYNNWYS


Cynhadledd Ystadau Cymru 2022 – Gwerth Cymdeithasol
Tudalen 3

Datblygu ac Adfywio: Mynd i'r afael ag anghenion tai a buddsoddi yn ein cymunedau
Tudalen 4

Adfywio Canol Trefi
Tudalen 5

Agor Drenewydd
Tudalen 6

Triongl Maendy
Tudalen 7

Gwobrau Ystadau Cymru 2022
Cymerwch gip ar ein prosiectau a gweld arferion gorau ar waith
Tudalen 9


NEWYDDION YSTADAU CYMRU O OGLEDD CYMRU

Mae Gwobr Gyffredinol Ystadau Cymru 2022 a'r Wobr am Gynaliadwyedd Amgylcheddol yn mynd i...



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM A'I BARTNERIAID.

am dorri tir newydd wrth adnewyddu Adeiladau'r Goron yn y dref. Darllenwch ymlaen er mwyn gweld sut llwyddon nhw i gyflawni hynny. Gweler tudalen 8.

**Cylchlythyr Ystadau Cymru: Rhifyn 8 | LLYW.CYMRU**

**Gwobrau Ystadau Cymru 2024 | LLYW.CYMRU**

# BIG BOCS BWYD

## Hanes Cadog's Corner

Siaradwr:
**HANNAH COGBILL-DAVIES,**
Ysgol Gynradd Tregatwg, Barri

**Yn procio'r meddwl ac yn ysbrydoli, ein cyflwynydd cyntaf yng nghynhadledd 2023 oedd Hannah Cogbill-Davies o Ysgol Gynradd Tregatwg yn y Barri.**

Rhannodd Hannah stori Cadog's Corner, prosiect dan arweiniad yr ysgol ond sy'n creu cyfleoedd i'r gymuned gyfan.

Nod gweithgareddau o dan ymbarél 'Cadog's Corner' yw mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol, iechyd a chyflogadwyedd ac mae'r cynllun yn taclo tlodi bwyd a hefyd yn cynyddu mynediad at brydau maethlon, ac yn gwella lles.

Ysgol Gynradd Tregatwg oedd y sefydliad cyntaf i gefnogi Big Bocs Bwyd, menter sydd bellach wedi lledaenu i 14 awdurdod lleol yng Nghymru!

Mae'r gwaith yn Cadog's Corner wedi bod yn arloesol ac yn drawsnewidiol. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau ac edrych ar heriau fel cyfleoedd.

**Gellir gweld rhagor am y fenter yma:**
**Gwefan: Big Bocs Bwyd**

# PARTNERIAETH READ CONSTRUCTION A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

**Adnewyddu Adeiladau'r Goron**

Siaradwr:
**ALEX READ**

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

**Roeddem yn falch iawn o groesawu'r tîm oedd yn enillwyr cyffredinol yng Ngwobrau Ystadau Cymru 2022 yn ôl atom.**

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Read Construction yn gweithio mewn partneriaeth i ailddatblygu adeiladau'r cyngor o'r 1960au yng nghanol tref Wrecsam.

Mae'r adeilad bellach yn ganolfan i'r holl staff gofal cymdeithasol ac addysg, ac yn darparu gwasanaethau i blant ac oedolion gan fod Hyb Lles newydd wedi ei greu ar lawr isaf yr adeilad.

Mae'r gwaith adnewyddu hefyd wedi gwella perfformiad ynni'r adeiladau o EPC D i EPC A, sydd wedi helpu i leihau'r ôl troed carbon tra'n ymestyn hyd oes y strwythur presennol dros 50 mlynedd ychwanegol.

Enillodd y prosiect hwn hefyd wobr YC 2022 am Gynaliadwyedd Amgylcheddol.

Rhoddodd Alex gyngor defnyddiol iawn i'r gynulleidfa a oedd yn cynnwys:

» Sicrhewch eich bod yn cynnal asesiad prosiect penodol bob amser.

» Mae ymgysylltu'n gynnar â chontractwyr a dylunwyr cymwys yn hanfodol.

» Dylai timau prosiect sydd â phrofiad sero net gael eu defnyddio cyn gynted â phosibl.

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF –

## FFERM SOLAR COEDELÁI

Siaradwyr:

**TÎM LLEIHAU CARBON AC YNNI**

RHONDDA CYNON TAF

**Y prosiect hwn fydd fferm solar gyntaf y Cyngor ar y tir, ac ochr yn ochr â chynhyrchu 5 Megawat o bŵer i'r grid cenedlaethol, bydd pŵer hefyd yn cael ei gyflenwi i Ysbyty Brenhinol Morgannwg gerllaw.**

Mae disgwyl i'r safle – hen leoliad pwll glo sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pori – gynhyrchu trydan am o leiaf 40 mlynedd!

Bu nifer o heriau ar ddechrau'r datblygiad. Mae'r rhain yn cynnwys hygyrchedd safle; a oedd cysylltiadau â'r Grid Cenedlaethol yn dechnegol bosibl; cydnabyddiaeth bod hwn yn brosiect peirianneg sifil sylweddol a sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arbenigedd technegol naill ai yn fewnol neu drwy ymgynghorwyr.

Mae'r Cyngor yn disgwyl, gyda chwblhau'r A4119, y bydd elfen wifren breifat y prosiect wedi'i chwblhau'n rhannol a chytunwyd ar y cytundeb prynu pŵer gydag Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Byddai hyn yn darparu tua 20% o ofynion trydan yr ysbyty. Bydd y paneli solar ar y safle yn rhai uchel fel y gall defaid bori oddi tanynt, ac mae ecolegydd wedi'i benodi i gynhyrchu cynllun gwarchod bywyd gwyllt a rheoli bioamrywiaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud, ond gyda'r gwir bosibilrwydd o fanteision mawr i'r cyngor, yr ysbyty lleol ac i'r amgylchedd.

**Ymgynghoriad lleol ar y gweill ar gyfer Fferm Ynni Solar arfaethedig yng Nghoed-elái (rctcbc.gov.uk)**



# Enillydd Gwobr Award Winner 2023

ystadau cymru

Arwain cydweithredu – un ystad gyhoeddus Cymru
Leading collaboration – one public estate Wales

## ENILLYDD CYFFREDINOL!
## Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg

**Rydym yn falch o gyhoeddi mai Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr yw enillydd cyffredinol Gwobrau Ystadau Cymru 2023.**



FOOD Vale BWYD Y Fro

Mae'r prosiect yn brosiect cydweithredol wedi'i leoli yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg. Ym mis Hydref 2020 daeth partneriaid aml-sector at ei gilydd i archwilio beth ellid ei wneud i gael gwared ar rwystrau rhag cael mynediad at fwyd da yng nghanol argyfwng costau byw a phandemig.

Trwy drafod â'r gymuned ac arbenigwyr a dadansoddi data, datblygwyd cynllun gweithredu ar sut i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd mewn ardal wledig. Dywedodd aelodau'r gymuned:

**"Mae angen rhywbeth lle gallwn ni wneud popeth ar yr un pryd, bwyd, cyngor ar goginio, iechyd meddwl ...".**

Mae llawer o weithgareddau'r prosiect yn cael eu rhedeg drwy Ganolfan Gymunedol ffyniannus CF61 a thra mai bwyd yw angor y prosiect hwn, mae hefyd yn ceisio meithrin llawer o fanteision eraill ar gyfer y gymuned leol ac mewn partneriaeth â hi.

Yn gartref i fentrau fel y Ganolfan Bwyd a Mwy, mae'r ganolfan wedi galluogi dull seiliedig ar le, lle y gall nifer o asiantaethau weithio mewn partneriaeth o dan un to croesawgar.

Mae'r buddion niferus o'r prosiectau yn cynnwys:

- **Sicrhau bod pawb yn Llanilltud yn gallu cael pryd da bob dydd.**
- **Herio ansicrwydd bwyd a materion rhyng-gysylltiedig.**
- **Cynyddu ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn lleol, a mynediad ati.**
- **Adeiladu gwell perthnasoedd a chysylltedd rhwng darparwyr cymorth.**
- **Hyrwyddo a gwella ysbryd cymunedol.**
- **Annog tyfu bwyd yn lleol.**

Mae Prosiect Bwyd Llanilltud yn enghraifft wych o'r cryfder a all ddod o ddull cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r hyn a ddysgwyd bellach yn cael ei ddefnyddio i adeiladu partneriaethau pellach rhwng y cyngor a rhanddeiliaid lleol i fynd i'r afael â materion ar y cyd.

**Mae rhagor o wybodaeth isod:**

**Prosiect Bwyd Llanilltud yn ennill Gwobr Ystadau Cymru (valeofglamorgan.gov.uk)**

**Prosiect Bwyd Llanilltud – Bwyd Y Fro**

# YN YR AIL SAFLE AR GYFER GWOBRAU YSTADAU CYMRU

**Yr Hyb – Gallwn, gyda'n gilydd**

**Aeth ein hail wobr i'r Hyb!**

YR HYB | THE HUB
Gallwn, Gyda'n Gilydd | Together We Can



**Mae prosiect yr Hyb yn bartneriaeth rhwng yr Adran Dai a'r Tîm Cyflogadwyedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac mae'n darparu gwasanaeth arloesol sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion tai cyn gynted â phosibl.**

Cafodd y gwasanaeth, a leolwyd i ddechrau mewn adeilad cyhoeddus bach yng nghanol tref Merthyr, ei greu i atal unigolion a theuluoedd rhag cyrraedd pwynt argyfwng. Mae'r cymorth hwn y mae mawr ei angen wedi atal llawer o aelwydydd rhag gorfod bod mewn llety anaddas dros dro – gan leihau effaith y risg o ddigartrefedd ar aelwydydd.

Wrth iddo dyfu o nerth i nerth, mae hefyd wedi bod yn allweddol wrth gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth hanfodol eraill. Wrth i wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd, mae'r tîm wedi gallu gwella gwytnwch cymunedol, cynnig gwybodaeth hanfodol a chefnogaeth amserol.

Mae'r prosiect wedi bod mor llwyddiannus nes bod Tîm yr Hyb wedi sicrhau cyllid yn gynnar yn 2024 i ddatblygu eiddo sydd gryn dipyn yn fwy yng nghanol tref Merthyr. Rhannodd Jennifer Rees, Swyddog Tai Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr ei barn gyda ni pan ymwelodd tîm YC yn gynharach eleni:

**"Gan weithio ar y cyd ag adrannau eraill yr awdurdod lleol, fe wnaethom sicrhau cyllid a datblygu eiddo sylweddol fwy yng nghanol y dref a fyddai wedi bod yn wag fel arall. Mae'r Hyb estynedig hwn bellach yn fan mwy hygyrch i'r gymuned. Mae gwahanol sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwytnwch cymunedol, darparu gwybodaeth hanfodol, a chynnig cefnogaeth amserol. Gyda'r ffocws canolog ar atal, mae'r canlyniadau a gyflawnir yn wirioneddol effeithiol i unigolion a theuluoedd ledled y fwrdeistref sirol yn ystod cyfnod heriol."**

Mae'r Hyb estynedig, sy'n cynnig croeso cyfeillgar, ac ystod eang o wasanaethau allweddol a chanllawiau hawdd eu cyrraedd, wedi gweld niferoedd digynsail yn dod trwy ei ddrysau. Mae'r prosiect hwn yn amlygu'n glir sut y gall ased gwag yn y lleoliad cywir arwain at sawl budd cymunedol.

**Hyb Canol y Dref yn dod yn ail yng Ngwobrau Ystadau Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

# GWOBRAU YSTADAU CYMRU – CANMOLIAETH

**Aeth ein gwobr ganmoliaeth i Barc Gelli Werdd. Wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin, mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad arloesol o eiddo masnachol carbon isel.**



Wedi'i adeiladu mewn ardal sy'n rhan o'r ystad gyhoeddus, mae Parc Gelli Werdd wedi'i leoli ar Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands. Crëwyd y Safle Cyflogaeth hwn gan Lywodraeth Cymru (LlC) a Chyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) drwy gytundeb cyd-fentro, gyda'r nod allweddol o gyflawni datblygiad economaidd ar y cyd trwy ddarparu safleoedd ac adeiladau at ddibenion cyflogaeth, ynghyd ag amcanion polisi ehangach.

Mae'r prosiect yn dangos sut y gall datblygu swyddfeydd a safleoedd diwydiannol yn fasnachol gyflawni targedau carbon sero-net trwy ddefnyddio egwyddorion adeiladu gweithredol. Darparu gweithdai a swyddfeydd o'r radd flaenaf gan leihau biliau ynni, dilyn arferion adeiladu cynaliadwy, a chefnogi'r economi leol!

Gan elwa ar ddull cydweithredol iawn sy'n cynnwys sawl partner, bydd y prosiect hwn yn arddangoswr i'r sectorau cyhoeddus a phreifat ddysgu ohono i gyflawni datblygiadau carbon isel.

Cyn datblygu'r safle yn strategol, gwnaethpwyd gwaith lliniaru, digolledu, a gwella tir ar ystad gyhoeddus ehangach Sir Gaerfyrddin ar gyfer gloÿnnod byw Britheg y Gors sy'n rhywogaeth â blaenoriaeth.

**Os ydych eisiau dysgu mwy, ewch i**

**Barc Gelli Werdd (llyw.cymru)**

**Prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr – Cadwraeth ar raddfa tirwedd yn ne-ddwyrain Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru)**

**MarshFritillaryLeafletA4_ENG.pdf (butterfly-conservation.org)**

# NEWYDDION AM GYLLID



## Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW3) – yn aros am eich ceisiadau.

**Rydym yn falch o gyhoeddi bod ACPW3 ar agor ar gyfer ceisiadau.**

Mae croeso i geisiadau am grantiau am hyd at £75,000 (refeniw) a hyd at £250,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf. Am arweiniad a ffurflen gais ewch i **wefan Ystadau Cymru.**

Rhaid i brosiectau gynnwys asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd a rhaid cwblhau'r prosiect o fewn blwyddyn ariannol 2024-25 (1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025).

## Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau

**Mae'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn rhaglen wedi'i thargedu a lywir gan gyfalaf sy'n canolbwyntio ar ryddhau tir ac adeiladau cyhoeddus lle mae gwaith datblygu wedi arafu.**

Bwriedir iddi alluogi cyrff cyhoeddus a phartneriaid sector cyhoeddus i oresgyn rhwystrau i ddatblygu, hynny yw pontio'r "bwlch dichonoldeb" a chyflawni newid.

Mae hyn yn ategu uchelgeisiau ymyriadau eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, gyda'r nod o ddatgloi potensial datblygu tir cyhoeddus er budd cyhoeddus, yn enwedig er mwyn ateb y galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy.

I gael cyngor ac arweiniad ar y broses ymgeisio, cysylltwch â'r Is-adran Tir yn **YrIs-adranTir.LandDivision@llyw.cymru**

# Adroddiad Richard

**Richard Baker –**
Mae Richard Baker, swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ystadau Cymru, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Lywodraeth Cymru yn ei golofn reolaidd ar gyfer y cylchlythyr.

## Roedd 2023/24 yn flwyddyn hynod brysur arall gyda llawer o heriau, ond fe lwyddon ni i gyflawni llawer iawn!

Roedd Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru 2023 yn llwyddiant mawr, gan arddangos rhai prosiectau diddorol ac arloesol.

Hoffwn ddiolch i Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet am ei chefnogaeth i'r gynhadledd a gwaith Ystadau Cymru.

Ryw'n falch o gyhoeddi bod ein cynllun grant ACPW3 2024/25 bellach ar agor. Rydym wedi cefnogi llawer o brosiectau rhagorol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn disgwyl ymlaen at weld ceisiadau eleni. Mae rhagor o fanylion yn adran gyllid y ddogfen hon.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym hefyd wedi bod yn brysur yn sefydlu Comisiwn Asedau Cymunedol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Bydd argymhellion o'r gwaith hwn yn cael eu cyflwyno i'r Senedd y gwanwyn nesaf.

Gyda llawer o brosiectau gwych ar y gweill, bydd eleni'n flwyddyn brysur arall. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn o'n cylchlythyr ac yn cael haf gwych!

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50141, ISBN digidol: 978-1-83625-490-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg